

Cymerwch ran yn #TreftadaethArAgor yr haf hwn!

14/06/2022

Tri phlenty'n a'u curoedolyn yn agosáu at d? hanesyddol

Mae Marble Hill House yn Twickenham, Llundain wedi ailagor yn ddiweddar diolch i arian y Loteri Genedlaethol.

Ymunwch â ni ar y cyfryngau cymdeithasol i roi gwybod i ymwelwyr am eich #TreftadaethArAgor a chymryd rhan yn ein hymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol ddydd Mawrth 21 Mehefin.

Ar ddiwrnod cyntaf yr haf rydym am eich helpu i hyrwyddo'r dreftadaeth wych rydych chi'n gofalu amdani a'r prosiectau rydych chi'n eu cynnal.

Diwrnod cyntaf yr haf

I gymryd rhan, postiwch ar Twitter ac Instagram gan ddefnyddio'r hashnod **#TreftadaethArAgor** ar **21 Mehefin am 9am** – hydoddedd yr haf. Dywedwch wrth bawb am eich treftadaeth a rhowch wybod iddynt ei bod yn agored i ymweld ac archwilio.

Rydym am glywed gan bob math o brosiect treftadaeth, mawr a bach. Byddwn ar-lein drwy'r dydd i ryngweithio â'ch negeseuon a'u rhannu – cofiwch ein tagio ar [@HeritageFundUK](https://twitter.com/HeritageFundUK).

Gallwch hefyd dagio yn eich cyfrif Twitter lleol:

- Cymru: [@HeritageFundCYM](https://twitter.com/HeritageFundCYM)

Parhau drwy gydol misoedd yr haf

Byddwn yn hyrwyddo'r hashnod drwy gydol **mis Gorffennaf a mis Awst**, felly daliwch ati i'w ddefnyddio i helpu i hyrwyddo eich prosiectau.



Clwb Pêl-droed St Helens, 1977. Mae haf cyffrous o ddathliadau, arddangosfeydd, ffilmiau cof a gweithgareddau cymunedol yn cael ei gynnal ar draws naw dinas letyol EURO Menywod UEFA fel rhan o brosiect EURO Menywod UEFA 2022 – Prosiect Treftadaeth Pêl-droed Menywod.
Image copyright: Amgueddfa Bêl-droed Cenedlaethol

Angen syniadau ar gyfer beth i'w bostio?

Beth am rannu digwyddiadau, arddangosfeydd a gweithgareddau sydd ar y gweill. Gallech hefyd rannu taith o amgylch eich treftadaeth neu bostio rhai o'ch hoff ffeithiau i ddenu pobl i ymweld â nhw.


Dyma rai negeseuon drafft am ysbrydoliaeth:

Post drafft: Dyma' ddiwrnod cyntaf yr haf ac mae #TreftadaethArAgor! Dewch i ymweld a gallwch archwilio (mewnosod) @HeritageFundUK

Post drafft: Rydym yn ymuno â @HeritageFundUK @HeritageFundCYM heddiw i ddathlu #TreftadaethArAgor! Mae gennym gymaint o bethau gwych y gallwch eu gweld ac ymweld â nhw gan gynnwys (mewnosod). Ble fyddwch chi'n ymweld yr haf hwn?

Mae gennym hefyd graffeg gyda'r hashnod y gallwch ei ddefnyddio:

[Lawrlwythwch y pecyn graffeg #TreftadaethArAgor](#)



Agorodd y prosiect Adfer Cofrestrfa yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn swyddogol ym mis Mehefin 2022. Credyd: Tim Jones

Ein hymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol eraill

Rydym yn cynnal ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol drwy gydol y flwyddyn i helpu i hyrwyddo gwaith gwyh eich prosiectau treftadaeth. Cadwch y dyddiadau hyn sydd ar y gweill yn eich dyddiadur:

- **9 Tachwedd 2022 – Diwrnod #DiolchiChi:** Moment i ddiolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol am ariannu eich prosiect treftadaeth ar ben-blwydd y raffl gyntaf gan y Loteri Genedlaethol.
- **11 Ionawr 2023 – Diwrnod #TrysorauTreftadaeth:** Eiliad i dynnu sylw at y dreftadaeth wych sydd wedi'i hachub a'i rhannu i lawr y blynyddoedd diolch i'n cyllid.

Diolch am gymryd rhan ac edrychwn ymlaen at weld eich negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol!



arddeb hefyd mewn ...

[St Helens WFC, 1977. Copyright: National Football Museum](#)



[Football](#)



[Six-year, £68.25million refurbishment](#)

[The Lovell Telescope and the First Light Pavilion at Jodrell Bank. Credit: Andrew Brooks](#)

Out of this world: Jodrell Bank's First Light Pavilion set to open